Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Swyddog Prosiect Lleihau Carbon

Llwybr Gyrfa

Pecyn Gwybodaeth Swyddi Gwag

Manylion yr Hysbyseb

Teitl y Swydd: Swyddog Prosiect Lleihau Carbon (Llwybr Gyrfa)
Lleoliad: Neuadd y Sir, Rhuthun / Gweithio'n hyblyg
Cyflog: Graddau 7 - 9 (£32,654 - £41,511 y flwyddyn)
Oriau: 37 awr yr wythnos
Contract: Parhaol

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd hon, cysylltwch â Martyn Smith (Rheolwr Ynni a Charbon Eiddo) ar 01824 706854.

Llinell amser recriwtio	
Dyddiad Cau:	14 Ebrill 2025
Dyddiad Cyfweliad:	I'w gadarnhau
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd wag gyffrous hon, llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

Rydym hefo'r hawl i gau'r swydd hon yn gynnar os rydym yn derbyn digon o geisiadau am y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, gyrrwch eich cais mor gynnar â phosibl.

I ganfod dulliau eraill o wneud cais, ffoniwch y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01824 706200.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Cydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Yn rhan o ymateb y Cyngor i'r agenda ddatgarboneiddio ac i ddatgan argyfwng o ran yr hinsawdd, mae swydd gyffrous wedi codi yn yr Adran Dechnegol Eiddo sy'n canolbwyntio ar leihau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni ar draws portffolio eiddo'r Cyngor, gan adeiladu ar y mesurau effeithlonrwydd a gwblhawyd yn flaenorol.

Fe fydd y Swyddog Prosiect Lleihau Carbon yn aelod allweddol brwdfrydig a llawn cymhelliant o'r Tîm Ynni gyda'r gallu technegol a'r cymhelliant i bennu, datblygu a chyflawni prosiectau lleihau carbon pwysig ar draws ystod o fathau o adeiladau a meysydd darparu gwasanaeth. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus rôl allweddol i gyfrannu at gyrraedd targedau lleihau carbon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Beth yw Llwybr Gyrfa?

Llwybr Gyrfa yw cynllun datblygu i weithiwr wneud cynnydd yn eu gyrfa. Yn debyg i brentisiaeth, mae Llwybr Gyrfa yn cynnig cyfle ffurfiol i ddatblygu gwybodaeth, dysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau mewn maes penodol.

Mae gan Lwybrau Gyrfa swydd-ddisgrifiad lefel mynediad a fydd â chyflog is, a swydd-ddisgrifiad lefel terfynol a fydd â chyflog uwch. Yna gosodir cynllun datblygu i ddangos yn glir y sgiliau, profiadau, gwybodaeth a chymwysterau sydd eu hangen er mwyn datblygu trwy'r graddau nes eich bod yn cyrraedd y swydd-ddisgrifiad cyflog uwch lefel terfynol.

Ar ôl y swydd ddisgrifiad yn y pecyn hwn, mae tabl sy'n dangos y meini prawf perthnasol ar gyfer pob gradd cyflog o fewn y Llwybr. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi nodi'n glir yn y datganiad ategol o'ch cais sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y graddfa rydych chi'n gwneud cais amdano.

Beth sy'n gwneud Cyngor Sir Ddinbych yn le gwych i weithio?

Credwn y dylai gwaith caled ac ymrwymiad ein staff gael eu gwobrwyo'n briodol. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision i helpu ein gweithwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, datblygu yn eu gyrfa, a'u cefnogi yn eu gwaith.

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac ystwyth
- Gwyliau blynyddol hael sy'n dechrau ar 26 diwrnod (yn ogystal â gwyliau banc) yn codi gyda hyd y gwasanaeth i gyfanswm o 32 diwrnod
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Arbedion Ffordd o Fyw trwy DCC Rewards Direct
- Cynllun aberthu cyflog car a chynllun prydlesu ceir
- Ystod o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd

I weld y rhestr lawn o'r manteision rydyn ni'n eu gynnig, ewch i'n gwefan:
www.sirddinbych.gov.uk/tal-a-buddion

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Prosiect Lleihau Carbon
Graddfa: Gradd 7
Gwasanaeth: Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiaid, Digidol ac Asedau
Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Technegol Eiddo
Yn atebol i: Rheolwr Ynni a Charbon Eiddo
Rhif y Swydd: 04617

Categori Iaith Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol - lefel 2

Pwrpas y Swydd

Cynorthwyo i ddatblygu ac annog mesurau effeithlonrwydd ynni a darparu'r arbenigedd angenrheidiol i gynghori rheolwyr adeiladau, staff a thenantiaid ynglŷn â sut i wella effeithlonrwydd ynni a sicrhau bod defnyddwyr yn mynd ati i reoli ynni yn effeithiol yn adeiladau'r Cyngor.

Cefnogi'r Rheolwr Ynni a Charbon Eiddo i ddarparu arweinyddiaeth i'r rhaglen a'r strategaeth ar draws y Cyngor, gan sicrhau bod y prosiectau ynni/lleihau carbon allweddol yn cael eu darparu drwy gydweithredu a thrwy bartneriaethau ar draws y Cyngor a gyda budd-ddeiliaid allanol, gan gynnwys y gymuned ehangach.

Datblygu, rheoli, monitro, dadansoddi a gwerthuso'r gwaith technegol o gyflawni'r rhaglen a'r prosiectau effeithlonrwydd ynni/lleihau carbon drwy'r holl gamau, gan ddarparu adroddiadau cynnydd a chyngor arbenigol i'r Uwch Reolwyr, Aelodau Etholedig a'r Pwyllgorau, grwpiau a fforymau priodol, gyda'r bwriad o fod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030 fan bellaf.

Gweithredu'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau. Sicrhau bod y Strategaeth Rheoli Carbon yn cael ei gweithredu a monitro'r cynnydd.

Sicrhau bod y ffrwd waith a'r hierarchaeth ynni ar Leihau Carbon o Adeiladau yn cael ei gweithredu a bod prosiectau'n rhoi gwerth am arian.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu modelau newydd i gyflawni mentrau ynni/lleihau carbon, arloesedd a chyfleoedd entrepreneuraidd. Trefnu a rheoli archwiliadau ac astudiaethau dichonoldeb carbon isel arbenigol gan ymgynghorwyr allanol ac adolygu a gweithredu argymhellion.

Pennu a manteisio ar gyfleoedd am gyllid i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni Eiddo Corfforaethol, gan sicrhau'r gefnogaeth ariannol fwyaf bosib' ar gyfer rhaglenni buddsoddi'r Cyngor, a hysbysu budd-ddeiliaid allweddol yn ôl y gofyn.

Monitro a chynnal Systemau Rheoli Ynni Adeiladau'r Cyngor a darparu gwasanaeth biwro i ddefnyddwyr ac i gynorthwyo i redeg yr Eiddo o ddydd i ddydd.

Cynorthwyo'r Rheolwr Ynni a Charbon Eiddo i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth carbon ac ynni'r DU, LIC a'r UE, gan gynnwys paratoi ar gyfer a chyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r polisïau hyn o safbwynt gweithredol mewn perthynas â phortffolio eiddo'r Cyngor.

Llunio cyngor cyffredinol a thechnegol a gwneud argymhellion i leihau defnydd a chostau ynni i'r Cyngor, h.y. trydan, nwy, olew a dŵr, wrth sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fod yn fodlon a chynnal ansawdd amgylcheddol.

Cynorthwyo i newid arferion ynghlwm â newid hinsawdd a chefnogi effeithlonrwydd wrth ddarparu pob gwasanaeth, gan alluogi gwasanaethau i wneud newid cadarnhaol a pharhaol a phennu eu gofynion newid eu hunain. Meithrin arfer cadarnhaol o welliant parhaus o ran effeithlonrwydd ynni sy'n cefnogi ymrwymiad y Cyngor i weithredu ar ôl datgan argyfwng yr hinsawdd, ym mhob maes gwasanaeth. Trafod gydag adrannau eraill o fewn yr Awdurdod o ran gweithredu prosiectau yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni gan gynnwys rhoi cyngor ar ddefnydd adeiladau newydd a rhai presennol yn ôl yr angen.

Cynorthwyo i adolygu a chynghori ar yr holl gynigion yn ymwneud â newidiadau i bortffolio corfforaethol y Cyngor gan gynnwys adeiladau newydd, estyniadau mawr a gwaith adnewyddu gyda'r bwriad o sicrhau'r budd mwyaf o fesurau effeithlonrwydd ynni/carbon niwtral.

Meithrin partneriaethau yn fewnol ac yn allanol i hyrwyddo cydweithio, arbedion maint ac arferion gorau.

Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd neu sefydliadau mewnol ac allanol, cyfarfodydd rhanbarthol, ymchwiliadau a lleoliadau eraill. Paratoi a chyflwyno cyngor ac adroddiadau manwl mewn modd hyderus a phroffesiynol.

Adnoddau/Offer/Deunyddiau

Cyfarpar Diogelu Personol: Dillad llachar, esgidiau diogelwch.
Gliniadur, ffôn symudol, offer monitro a mesur arbenigol.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Mae hon yn swydd gradd gyrfa. Profiad, gwybodaeth a chymwysterau'r ymgeisydd llwyddiannus a fydd yn pennu'r radd maent yn cychwyn arni.

Bydd y lefel fynediad (gradd 7) yn gofyn am isafswm o HNC (neu RQF4 cyfwerth) mewn maes ynni/cynaliadwyedd neu'r amgylchedd adeiledig (yn canolbwyntio'n helaeth ar leihau allyriadau carbon) a'r awch/gallu i ddilyn cwrs gradd i allu datblygu i radd 9.

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod â rhinweddau arweinydd cryf gyda phrofiad o gynorthwyo â/cyflawni prosiectau a/neu raglenni effeithlonrwydd ynni/lleihau carbon o fewn sefydliad mawr. Mae angen profiad digonol mewn rôl yn cyflawni prosiectau ynni sy'n uniongyrchol gysylltiedig.

Bydd gan ddeiliad y swydd wybodaeth am dechnolegau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, defnydd o ynni a chyfrifo arbedion ynghyd â'r marchnadoedd cyflenwyr ynni a chyfleoedd am gyllid grant. Bydd yn deall sut i bennu beth yw'r dechnoleg gywir a beth yw'r maint cywir yn ogystal â deall y broses o ddatblygu achos busnes ariannol i ategu'r achos busnes ar gyfer y buddsoddiad.

Mae disgwyl hefyd y bydd yn deall ac yn meddu ar brofiad ymarferol o reoli systemau rheoli (ynni) adeiladau.

Profiad o weithio ar/rheoli sawl prosiect dros sawl lleoliad.

Rhaid i ddeiliad y swydd fod â sgiliau rhyngbersonol cryf ynghyd â'r gallu i ddangos blaengaredd, gweithio o fewn terfynau amser a meddu ar wybodaeth gadarn am weithdrefnau mewnol y Cyngor.

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fedru ymdrin â swyddogion, ymgynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig mewn modd cwrtais, effeithiol a phroffesiynol.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ddeall TG a meddu ar sgiliau rhifedd da a sgiliau ysgrifennu a chyflwyno ar lafar arbennig, yn ogystal â dealltwriaeth weithredol o systemau rheoli ynni.

Dylai deiliad y swydd fod empathi tuag at iaith a diwylliant Cymru.

Dylai allu pennu blaenoriaethau a rhoi camau gweithredu ar waith i gyflawni amcanion.

Amodau Gwaith Arbennig

Bydd deiliad y swydd yn cynnal ymweliadau ac arolygon ar ystod o adeiladau a safleoedd y Cyngor ac yn ymweld ag ardaloedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd neu ddefnyddwyr adeiladau cyffredinol e.e. ystafelloedd offer, ardaloedd gwasanaeth, gwagle'r nenfwd, gwagle yn y to, sianeli tanddaearol, ffosydd, mannau cyfyng, sgaffaldau mynediad ac ati, lle gellir profi sŵn canolig i uchel, oerfel a gwres. Bydd deiliad y rôl hefyd yn dod i gysylltiad â deunyddiau a allai fod yn niweidiol a bydd dillad amddiffynnol, offer a hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer hynny.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel safonol; cael eu clirio gan y GDG, cyflwyno 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, dangos tystiolaeth o gymwysterau hanfodol a dangos tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

Cyllid / Ystadegau

Gwerth Asedau'r Portffolio: £400 miliwn
Cost Flynyddol Cyfleustodau: £3 miliwn
Eiddo Cyffredinol: 1200

Y Llwybr Gyrfa

Mae'r swyddi hyn yn rhan o Lwybr Gyrfa, sy'n golygu ein bod yn chwilio am ymgeiswyr nad ydynt yn ateb meini prawf y swydd yn derfynol. Rydym yn hytrach yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr ar lefel mynediad sydd mewn sefyllfa i ennill y sgiliau a'r cymwysterau hyn.

Bydd ymgeiswyr sy'n ateb yr holl feini prawf a osodir ar gyfer y swydd ar y raddfa isaf yn cael blaenoriaeth wrth ystyried ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Ond rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n ateb y meini prawf yn y graddfeydd uwch, a bydd y rhain yn cael eu hystyried os y bydd y diddordeb yn y lefel is yn annigonol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cefnogi i symud ymlaen trwy'r graddfeydd nes eu bod yn ddigon cymwys a phrofiadol, a byddant yn cael eu talu yn unol â'r meini prawf y maent yn eu hateb.

Ar ôl dechrau yn eu swyddi, bydd deiliaid y swyddi yn symud ymlaen trwy'r graddfeydd wrth i'w sgiliau, gwybodaeth a galluoedd ddatblygu ac wrth iddynt ennill cymwysterau, yn unol â'r Llwybr Gyrfa.			
	Gradd 7	**Gradd 8**	**Gradd 9**
	Cynorthwyydd Prosiect Lleihau Carbon - Lefel Mynediad (Rhif y Swydd: 04617)	**Cynorthwyydd Prosiect Lleihau Carbon**	**Swyddog Prosiect Lleihau Carbon (Rhif y Swydd: 03804)**
Cymwysterau	Addysg hyd at lefel HNC (RQF lefel 4) mewn maes perthnasol. *(Dylai hyn fod mewn maes pwnc ynghlwm ag Ynni, Carbon Isel neu'r Amgylchedd Adeiledig, gyda phwyslais sylweddol ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon)*	Addysg hyd at lefel HNC/HND (RQF lefel 4/5) mewn maes perthnasol. *(Dylai hyn fod mewn maes pwnc ynghlwm ag Ynni, Carbon Isel neu'r Amgylchedd Adeiledig, gyda phwyslais sylweddol ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon)* Hyfforddiant cysylltiedig ychwanegol ar asesu ynni / lleihau carbon / ynni adnewyddadwy gan ddarparwr proffesiynol cydnabyddedig.	Addysg hyd at lefel gradd (BSc, BEng, RQF 6) mewn maes perthnasol. *(Dylai hyn fod mewn maes pwnc ynghlwm ag Ynni, Carbon Isel neu'r Amgylchedd Adeiledig, gyda phwyslais sylweddol ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon)* Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn maes sy'n uniongyrchol gysylltiedig.

Profiad Perthnasol	Profiad uniongyrchol o gynorthwyo i ddatblygu a/neu gyflawni prosiect effeithlonrwydd ynni / lleihau carbon o fewn sefydliad mawr. Profiad sylweddol o weithio gyda systemau rheoli adeiladau. Profiad sylweddol yn y maes ynni mewn swydd sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni.	Prawf o brofiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni / lleihau carbon a chydnabyddiaeth broffesiynol ynghyd â hanes perthnasol cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Profiad sylweddol o weithio gyda systemau rheoli adeiladau. Profiad sylweddol yn y maes ynni mewn swydd sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni.	Llwyddiant blaenorol o ddatblygu a/neu gyflawni prosiectau a/neu raglenni effeithlonrwydd ynni/lleihau carbon o fewn sefydliad mawr. Profiad o reoli sawl prosiect dros sawl lleoliad. Profiad sylweddol yn y maes effeithlonrwydd ynni o fewn rôl cyflawni prosiectau.
Gwybodaeth a Sgiliau	Dealltwriaeth gref o'r hierarchaeth ynni, datblygu a chyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni / lleihau carbon a phrofiad ymarferol o reoli Systemau Rheoli Adeiladau. Gallu dadansoddi data'n fanwl a chyfrifo arbedion a defnydd o ynni. Gwybodaeth am farchnadoedd cyflenwyr ynni a chyfleoedd am gyllid grantiau. Deall TG a sgiliau rhifedd da. Sgiliau ysgrifenedig a chyflwyno ar lafar ardderchog.	Yr un fath â Gradd 7 gyda gwybodaeth am farchnadoedd cyflenwyr ynni a chyfleoedd am gyllid grantiau. Gallu datblygu ac arwain ar brosiect heb fawr o gymorth gan eraill a darparu hyfforddiant ynghlwm â'r prosiect wrth ei drosglwyddo.	Yr un fath â Gradd 8 gyda lefel broffesiynol, ddatblygedig o ddealltwriaeth o ran datblygu prosiect llawn o'r trafod cychwynnol, ffurfio'r manylion, drwy'r broses gaffel hyd at ei gyflawni a'i drosglwyddo. Gallu datblygu achos busnes, caffael cyllid a monitro targedau cyflawni a pherfformiad.

Rhinweddau Personol	Sgiliau rhyngbersonol da. Gallu arddangos blaengaredd a gweithio o fewn terfynau amser tynn. Gallu ymdrin â swyddogion, ymgynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig mewn modd cwrtais, effeithiol a phroffesiynol.	Sgiliau rhyngbersonol da. Gallu arddangos blaengaredd a gweithio o fewn terfynau amser tynn. Gallu ymdrin â swyddogion, ymgynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig mewn modd cwrtais, effeithiol a phroffesiynol.	Sgiliau rhyngbersonol da. Gallu arddangos blaengaredd a gweithio o fewn terfynau amser tynn. Gallu ymdrin â swyddogion, ymgynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig mewn modd cwrtais, effeithiol a phroffesiynol.
Unrhyw Ofynion Eraill	Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Gallu teithio i wahanol leoliadau'r cyngor.		
Ffynonellau Tystiolaeth: Byddwn yn casglu tystiolaeth o'r ffynonellau hyn i gefnogi symud drwy'r Graddfeydd Gyrfa; cofnodion 121 / Cynlluniau Datblygiad Persono l/ adborth Rheolwyr / ystadegau rheoli perfformiad / Sicrhau Ansawdd.			
Perfformiad: Presenoldeb isel yn y gwaith (bydd gweithwyr yn cael eu rheoli o fewn y Weithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith) / Bydd cosb ddisgyblaethol neu hysbysiadau Cyngor Rheoli yn cael effaith niweidiol ar symud drwy'r hyd y Graddfeydd Gyrfa.			
Datblygiad: Er mwyn datblygu trwy'r Llwybr Gyrfa, bydd angen i weithwyr sicrhau eu bod yn diwallu'r safonau cymwysterau gofynnol a chynhyrchu tystiolaeth yn seiliedig ar y ffynonellau tystiolaeth a amlinellir uchod Disgwylir y bydd gweithwyr llwyddiannus yn symud drwy'r Llwybr Gyrfa os ydynt yn dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf, a bydd disgwyl iddynt fanteisio ar yr holl gefnogaeth sydd ar gael er mwyn gwella eu profiad dysgu a gwneud y mwyaf o'u potensial. Mae peth disgresiwn a hyblygrwydd yma, ond disgwylir amserlen resymol o hyd. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau i ddatblygu rhwng camau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gynnydd Llwybr Gyrfa. Gellir penodi o fewn y strwythur Llwybr Gyrfa yn unol â'r gofynion uchod. Mae'n rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan ddatganiad Rheolwr Llinell ar unwaith yn ychwanegol at dystiolaeth cyflogai.			

Diolch am eich diddordeb

Cyngor Sir Ddinbych

Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Facebook: CyngorSirDdinbych

Twitter: @CyngorSDd

Pencadlys: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN